**Economi a Chymuned**
**Economy and Community**
Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig
Nautical and Country Parks Service
Rheolwr/Manager – Barry Davies

# CYNGOR GWYNEDD

## DEDDFAU IECHYD CYHOEDDUS 1875 I 1907

## TRWYDDED CWCH PLESER

## HARBWR ************

**Rhif: ***/**/**/2010**

Mae Cyngor Gwynedd, o dan, ac yn rhinwedd y pwerau a freiniwyd iddo gyda hyn, DRWY HYN YN TRWYDDEDU'R Cwch Pleser a ganlyn i fasnachu i'w logi yng nghyfyngiadau ***Harbwr*** *********** ( fel a bennwyd yn ***MSN 1719 M*** ) :-

**Enw'r Perchennog:**

**Cyfeiriad:** ***Gwynedd***

**Enw'r Cwch:**

**I gludo:**

Bydd y Drwydded hon mewn grym o'r ***** o ***** dwy fil a deg***, hyd at y ***31ain dydd o ******, dwy fil a deg*** YN AMODOL ER HYNNY i ddarpariaethau'r Deddfau a nodwyd uchod a hefyd i Is-ddeddfau, Rheolau, Gorchmynion a Rheoliadau a fydd o bryd i'w gilydd mewn grym i Reoli Cychod Pleser sy'n masnachu i'w llogi oddi fewn i gyfyngiadau'r harbwr dywededig, ac ynglŷn â defnydd y Cwch/Glanfa sy'n eiddo i'r Cyngor a hefyd ar ac yn amodol i'r amodau a ganlyn sef:

1. Bod Perchennog y cwch dywededig yn sicrhau fod cragen y Cwch yn ddiogel a bod y Cwch yn sad a'r offer yn gyflawn ac mewn cyflwr da ac i'r safonau sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Trwyddedu ac yn gyffredinol ddigonol i'w defnyddio mewn perthynas â Chwch Pleser.

2. Bod y perchennog dywededig yn sicrhau ymhob agwedd a soniwyd amdanynt uchod fod y Cwch tra ei fod yn masnachu neu yn cael ei ddefnyddio i'w logi, yn cael ei gynnal a'i gadw mewn dim llai na'i gyflwr effeithlon presennol.

3. Bod y Perchennog dywededig yn sicrhau nad yw'r Cwch yn cludo teithwyr i'w llogi oni bai fod nifer ddigonol o Gychwyr wedi eu trwyddedu yn briodol gan Gyngor Gwynedd i gymryd gofal o Gychod Pleser yn cael eu defnyddio i fordwyo a rheoli'r cwch.

4. Na fydd ef/hi yn caniatáu i unrhyw berson ac eithrio Cychwr trwyddedig llawn i fasnachu i logi gydag unrhyw Gwch Pleser Trwyddedig sydd yn eiddo iddo ef/hi.

Drosodd/-

5. Mae’r Drwydded hefyd wedi ei chaniatáu ar yr amod na fydd y Trwyddedai yn defnyddio nac yn caniatáu i'r Cwch a drwyddedir drwy hyn i gael ei ddefnyddio i ddibenion arddangos unrhyw hysbysebion.

6. Ni fydd y Trwyddedai yn caniatáu byrddio neu lanio teithwyr ar unrhyw fan ac eithrio’r man/ mannau a enwyd ar y drwydded hon.

    ***Harbwr Abermaw Dyfroedd wedi eu Categoreiddio, ardal sy’n cael ei chynnwys gan MSN 1719 M Abermaw ‘Grisiau’r Fferi/Lithrfa’r Harbwr/ /Ynys y Brawd neu Bwynt Penrhyn.***

7. Ni fydd y trwyddedai yn clymu’r cwch i risiau’r harbwr (ac eithrio mewn argyfwng) i’r diben o fyrddio neu lanio teithwyr os oes cwch arall eisoes wedi angori yn y fan llwytho/dadlwytho. Bydd y cwch sy’n gadael yn cael digon o ddŵr i symud ac i glirio Grisiau’r Fferi cyn fo cwch trwyddedig yn angori yn yr un fan. Ni fydd cwch nad yw’n cludo nac yn byrddio neu yn glanio teithwyr ddim yn cymryd yr ardal angori benodol nac yn rhwystro angori neu adawiad cwch sy’n cludo teithwyr.

8. Os yw Cyngor Gwynedd yn unol â’r pwerau am hyn a freiniwyd iddo drwy’r Deddfau a enwir uchod, drwy hysbysiad ysgrifenedig drwy law eu Swyddog Priodol ac wedi ei gyfeirio i'r Trwyddedai dywededig, yn dangos eu bwriad i ddiddymu’r Drwydded hon wrth dorri unrhyw un o’r amodau uchod yna fe fydd y Drwydded hon o ac ar ôl y dyddiad a nodir mewn hysbysiad o’r fath yn peidio ac fe fydd yn ddi-rym..

9. Bydd y Cwch ond yn gweithredu mewn tywydd ffafriol gyda’r holl deithwyr yn eistedd bob amser. Dylai’r gweithredwr sicrhau nad yw lleoliad y teithwyr yn y cwch yn effeithio yn andwyol ar drymder y cwch.

10. Rhaid arddangos yn glir uchafswm nifer y personau y gellir eu cludo ar fwrdd y cwch a’r taliadau a godir fel bo’r cyhoedd yn gallu eu gweld cyn byrddio’r cwch bob amser pan fydd yn masnachu i’w llogi.

11. Dylai’r perchennog sicrhau fod y lefel gofynnol o offer diogelwch ar gael bob amser ar y cwch a drwyddedir drwy hyn a gellir ei archwilio ar unrhyw amser gan swyddog penodedig y Cyngor.

12. Bydd Perchennog y cwch yn indemnio Cyngor Gwynedd rhag unrhyw hawliad a all godi o gyflwyno’r drwydded neu o unrhyw hawliad a gyfyd o ddefnyddio’r harbwr. .

Barry Davies
***<u>Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig</u>***